**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Gorffennaf, 2024 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor Su McConnel (Chairman)
County Councillor Peter Strong (Vice Chairman)

County Councillors: Rachel Buckler, Laura Wright, Tony Kear, Catrin Maby, Jan Butler, Ian Chandler, Sara Burch, Alistair Neill, Mary Ann Brocklesby, Fay Bromfield, Jane Lucas, Meirion Howells, Paul Griffiths, Jackie Strong, Rachel Garrick, Steven Garratt, Angela Sandles, Ben Callard, John Crook, Tomos Davies, Dale Rooke, Catherine Fookes, Sue Riley, Jayne McKenna, Jill Bond, Louise Brown, Lisa Dymock, Tony Easson, Christopher Edwards, Martyn Groucutt, Simon Howarth, Richard John, David Jones, Penny Jones, Malcolm Lane, Phil Murphy, Paul Pavia, Maureen Powell, Frances Taylor, Tudor Thomas, Armand Watts and Ann Webb

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Paul Matthews | Prif Weithredwr |
| Peter Davies | Prif Swyddog, Adnoddau |
| Jane Rodgers | Pennaeth Gwasanaethau Plant |
| Will Mclean | Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc |
| Jonathan Davies | Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog |
| Frances O'Brien | Prif Swyddog, Cymunedau a Lle |
| Ian Saunders | Prif Swyddog Gweithredu, BywydMynwy |
| Wendy Barnard | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| James Williams | Chief Officer Law & Governance |
| Julie Anthony | Human Resources (HR) Advisor |

**APOLOGIES:**

County Councillors Emma Bryn and Maria Stevens

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Eitem 11: I sefydlu Pwyllgor Taliadau: Gwnaeth Uwch Swyddogion y Tîm Arweinyddiaeth ddatganiad o fuddiant a thynnu'n ôl o'r cyfarfod.

2. **Cyhoeddiad y Cadeirydd**

Nodwyd Cyhoeddiad y Cadeirydd.

Talodd Arweinydd yr Wrthblaid deyrnged i fywyd a gwasanaeth y cyn-Gynghorydd Sirol, Sheila Woodhouse, sydd yn drist iawn wedi marw. Bu'n myfyrio ar ei chyfraniad eithriadol i fywyd cyhoeddus ac ar ei chariad at y Fenni.

Talodd y Cynghorydd Groucutt barch ar ran y Grŵp Llafur gan gofio sut y cafodd Sheila Woodhouse ei hedmygu a'i pharchu ar draws y Siambr a bydd colled fawr ar ei hôl.

Roedd y Cynghorydd Taylor ar ran y Grŵp Annibynnol yn cofio angerdd Sheila am ei ward, y Fenni a'r sir gyfan. Roedd hi'n gwasanaethu gyda charedigrwydd, tosturi a gofal.

Rhannodd y Cynghorwyr Powell a Lane atgofion melys o Sheila Woodhouse a sôn am ei hymroddiad i'w chymuned.

*Y Cynghorydd Sirol Christopher Edwards o 2.03pm*
*Y Cynghorydd Sirol Tomos Davies o 2.16pm*

## 3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Mai 2024

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Mai 2024 fel cofnod cywir.

## 4. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2024-2029

The Cabinet Member for Resources presented the Medium-Term Financial Strategy for 2024-2029.

**Upon being put to the vote Council resolved to accept the recommendations**

Council considered and approved the Council's medium term financial strategy (MTFS) for the period 2024-2029, providing the strategic framework for the medium-term financial plan (MTFP) to adapt over time to changing context and circumstances subject to changes resulting from scrutiny feedback.

Council approved the associated delivery plan and performance framework, delegating authority to the Cabinet Member for Resources and the Deputy Chief Executive (s151 officer) to keep its implementation under continual review.

Council agreed that Cabinet receives a six-monthly update of the MTFP to Cabinet, including formal progress against the performance framework and delivery plan, and that will be subject to scrutiny by the Performance and Overview Scrutiny Committee and the Governance and Audit Committee.

https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=JNXqIpAZzoUYdtrg&t=1408

*County Councillor Sue Riley from 2.31pm*
*County Councillor Phil Murphy from 2.37pm*

## 5. Pencampwr Pobl H?n

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch adroddiad yn cynnig bod y Cyngor yn cymeradwyo enwebiad y Cynghorydd Sirol Jackie Strong i rôl Pencampwr Pobl Hŷn.

**Ar ôl cael ei gyflwyno i'r bleidlais penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhelliad**

Cymeradwyodd y Cyngor enwebiad y Cynghorydd Sirol Jackie Strong i rôl y Pencampwr Pobl Hŷn.

https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=UkGMN6-VzOgPB8rN&t=3165

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Gorffennaf, 2024 at 2.00 pm**

## 6. Adroddiad Prif Swyddog - Plant a Phobl Ifanc

Cyflwynodd y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc ei Adroddiad Blynyddol. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg i'r aelodau o statws a pherfformiad y system addysg yn Sir Fynwy. Roedd yn ceisio darparu safbwynt y Prif Swyddog o'r cryfderau a'r meysydd perthnasol i'w datblygu yn y system, y risgiau y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu a'r cyfleoedd sy'n bodoli i wella.

**Penderfynodd y Cyngor nodi'r adroddiad.**

https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=sqpwU0-r9JbEf9tc&t=3832

*Y Cynghorydd Sirol Jane Lucas o 3.32pm*
*Gadawodd y Cynghorydd Sirol Jayne McKenna am 3.33pm*

## 7. Cynigion i'r Cyngor

## 8. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Lisa Dymock

**Ar gyfeirio'r cynnig i bleidlais a gofnodwyd, penderfynodd y Cyngor wrthod y newid i'r cynnig.**

**Pleidlais wedi'i Chofnodi: Derbyn y newid i'r cynnig.**

**Pleidleisiau o blaid: 18**

**Pleidleisiau yn erbyn: 23**

**Ymataliadau: 0**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Councillor J BOND | | x | |
| Councillor M A BROCKLESBY | | x | |
| Councillor F BROMFIELD | x | | |
| Councillor L BROWN | x | | |
| Councillor E BRYN | - | | |
| Councillor R BUCKLER | x | | |
| Councillor S BURCH | | x | |
| Councillor J BUTLER | x | | |
| Councillor B CALLARD | | x | |
| Councillor I CHANDLER | | x | |
| Councillor J CROOK | | x | |
| Councillor T DAVIES | x | | |
| Councillor L DYMOCK | x | | |
| Councillor A EASSON | | x | |
| Councillor C EDWARDS | x | | |
| Councillor C FOOKES | | x | |
| Councillor S GARRATT | | x | |
| Councillor R GARRICK | | x | |
| Councillor P GRIFFITHS | | x | |

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held**
**at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Gorffennaf, 2024 at 2.00 pm**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Councillor M GROUCUTT | | x | |
| Councillor S.G.M. Howarth | x | | |
| Councillor M HOWELLS | | x | |
| Councillor R JOHN | x | | |
| Councillor D. W. H. Jones | x | | |
| Councillor P. Jones | x | | |
| Councillor T KEAR | x | | |
| Councillor M LANE | x | | |
| Councillor J LUCAS | x | | |
| Councillor C MABY | | x | |
| Councillor S MCCONNEL | | x | |
| Councillor J MCKENNA | - | | |
| Councillor P MURPHY | - | | |
| Councillor A NEILL | x | | |
| Councillor P PAVIA | x | | |
| Councillor M POWELL | x | | |
| Councillor S RILEY | | x | |
| Councillor D ROOKE | | x | |
| Councillor A SANDLES | | x | |
| Councillor M STEVENS | | - | |
| Councillor J STRONG | | x | |
| Councillor P STRONG | | x | |
| Councillor F TAYLOR | x | | |
| Councillor T THOMAS | | x | |
| Councillor A WATTS | | x | |
| Councillor A WEBB | - | | |
| Councillor L WRIGHT | | x | |
| | 18 | 23 | 0 |

Mae'r Cyngor hwn:

Yn galw ar y Prif Weinidog i barhau â gwaith y cyn-lywodraeth Geidwadol a phenodi Gweinidog Cyn-filwyr ymroddedig o fewn y llywodraeth i fynd i'r afael â'r anghenion a'r heriau unigryw sy'n wynebu ein cyn-filwyr.

**Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais penderfynodd y Cyngor dderbyn y cynnig.**

https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=2HxXf4rBnZFVIA_W&t=9680

*County Councillor Frances Taylor left at 3.04pm*

## 9. Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sirol Richard John

**Mae'r Cyngor hwn:**

Yn llongyfarch y Cynghorydd Sirol Fookes ar ei hethol yn Aelod Seneddol Sir Fynwy ac yn nodi ei haddewid i fod yn 'AS llawn amser'.

Yn nodi bod Llywodraeth Lafur Cymru wedi deddfu i atal seneddwyr rhag gweithio fel cynghorwyr sir ar

yr un pryd.

Yn nodi'r tarfu a'r heriau sylweddol yn ward Tref, gan gynnwys nifer yr ymwelwyr, gwaith ffordd a pharcio, sy'n gofyn am lais cryf ar y Cyngor hwn ar gyfer trigolion a masnachwyr.

Yn galw ar y Cynghorydd Sirol Fookes i ymddiswyddo o Gyngor Sir Fynwy fel y gall trigolion ward Tref ethol cynghorydd sirol newydd.

**Ar ôl cael ei roi mewn pleidlais wedi'i recordio, penderfynodd y Cyngor wrthod y cynnig.**

**Pleidleisiau o blaid: 16**

**Pleidleisiau yn erbyn: 22**

**Ymataliadau: 1**

**Pleidlais wedi'i Chofnodi: Galw ar y Cynghorydd Sirol Catherine Fookes i ymddiswyddo yn dilyn ei hethol yn Aelod Seneddol**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Gorffennaf, 2024 at 2.00 pm**

| ENW | O blaid | Yn erbyn | Ymwrthod |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorydd Sirol J BOND | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol M A BROCKLESBY | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol F BROMFIELD | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol L BROWN | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol E BRYN | - | | |
| Y Cynghorydd Sirol R BUCKLER | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol S BURCH | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol J BUTLER | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol B CALLARD | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol I CHANDLER | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol J CROOK | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol T DAVIES | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol L DYMOCK | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol A. EASSON: | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol C EDWARDS | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol C FOOKES | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol S GARRATT | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol R GARRICK | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol P GRIFFITHS | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol M GROUCUTT | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol S.G.M. HOWARTH | | | |
| Y Cynghorydd Sirol HOWELLS | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol R JOHN | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol D. W. H. JONES | | | x |
| Y Cynghorydd Sirol P JONES | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol T KEAR | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol M LANE | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol J LUCAS | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol C MABY | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol S MCCONNEL | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol J MCKENNA | - | | |
| Y Cynghorydd Sirol P MURPHY | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol A NEILL | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol P PAVIA | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol M POWELL | x | | |
| Y Cynghorydd Sirol S RILEY | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol D ROOKE | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol A SANDLES | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol M STEVENS | | - | |
| Y Cynghorydd Sirol J STRONG | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol P STRONG | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol TAYLOR | | | |
| Y Cynghorydd Sirol T THOMAS | | | |
| Y Cynghorydd Sirol A WATTS | | x | |
| Y Cynghorydd Sirol A WEBB | - | | |
| Y Cynghorydd Sirol L WRIGHT | | x | |
| | 16 | 22 | 1 |

# MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Gorffennaf, 2024 at 2.00 pm

https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=aOpCqhvAV0fZkTs0&t=11471

*Gadawodd y Cynghorydd Sirol Simon Howarth am 5.28pm*
*Gadawodd y Cynghorydd Sirol Phil Murphy am 5.53pm*

**10. Cwestiynau'r Aelodau**

**11. O'r Cynghorydd Sirol Richard John i'r Cynghorydd Sirol Mary Ann Brocklesby, Arweinydd**

*Pa newidiadau y mae'r Cyngor wedi'u gwneud i'r dogfennau ar gyfer ail-dendro'r contract llaeth ac a all yr Arweinydd gadarnhau y bydd busnesau llai yn gallu cystadlu ar faes cydradd a theg?*

Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd unrhyw un sy'n tendro yn gallu cystadlu ar faes cydradd a theg.

Cynhaliwyd digwyddiad "cwrdd â'r prynwr" a fynychwyd gan sawl busnes bach.

Mae Hysbysiad Gwybodaeth Flaenorol wedi'i bostio ar safle GwerthwchiGymru, sy'n cynnwys manylion y lotiau a'r gwerthoedd ariannol yn seiliedig ar wariant diweddar. Gwahoddodd yr Hysbysiad y farchnad i gyflwyno cyflwyniadau ysgrifenedig ar y strategaeth lotio arfaethedig, hyd y contract ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella'r broses gaffael arfaethedig. Derbyniwyd chwe ymateb, gan gynnwys pedwar busnes lleol a dau o'r tu allan i'r sir. Bydd yr ymatebion yn cael eu defnyddio i ddatblygu'r fanyleb derfynol a'r strwythur lotio.

Mae deg lot: pump ar gyfer gogledd y sir a phump ar gyfer de'r sir. Gellir tendro lotiau ar wahân neu mewn cydweithrediad gan wneud y broses yn fwy hygyrch i fusnesau meicro a bach.

Yn y digwyddiad, trafododd swyddogion y Cyngor sut i leihau'r baich ar gyflenwyr ar gyfer y ddogfennaeth cyflwyno tendr er mwyn osgoi'r angen i benodi ymgynghorwyr. Yr adborth oedd eu bod yn defnyddio ymgynghorwyr i roi atebion i ni e.e. ar agweddau polisi ar ddatgarboneiddio. Mae'r adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod ein cwestiynau'n gymesur ac yn addas i gyflenwyr llai eu cwblhau eu hunain. Darparwyd mynediad i gymorth busnes am ddim.

Mae'r broses wedi'i chynllunio i sicrhau bod yr ymarfer caffael yn fwy hygyrch i feicrofusnesau a busnesau bach, gyda chontract ymrwymiad 5 mlynedd wedi'i gynnig i alluogi busnesau i fuddsoddi mewn unrhyw dechnolegau sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni contractau. Yr adborth oedd bod angen iddynt wybod meintiau disgwyliedig ac mae'r data hwn yn cael ei goladu wrth i ymarfer tendr fynd rhagddo. Cyhoeddir y ddogfennaeth dendro ar 13eg Awst gyda'r dyddiad cyflwyno ar 16eg Medi.
Mae croeso i geisiadau consortia a ddylai wneud y broses yn fwy hygyrch i fusnesau meicro a bach.

*Cwestiwn Atodol:*
*Roeddwn i am ofyn ynglŷn ag un o'r gofynion yn y set ddiwethaf o ddogfennau tendro sef bod angen i gwmnïau sy'n bidio fod ag achrediad diogelwch bwyd trydydd parti.*
*Felly, o ran busnesau bach annibynnol, sydd eisoes yn cael archwiliadau diogelwch bwyd rheolaidd gan arolygwyr hylendid bwyd Sir Fynwy ei hun.*
*Mae achrediad trydydd parti yn ddrud iawn ac yn ddiangen pan fydd safonau eisoes wedi'u gwirio gan ein harolygwyr dibynadwy ein hunain, felly a wnewch chi gytuno i edrych ar gael*

*gwared ar rwystrau fel hyn fel bod busnesau bach yn cael mynediad teg i gynnig am dendrau Cyngor fel y contract llaeth hwn.*

Mae dau gyfanwerthwr cenedlaethol, un wedi'i leoli yng Nghymru a'r llall yn Llundain sydd eisiau tendro. Nododd y cyflenwr o Gymru y byddai'n awyddus i nodi gwaith gyda busnesau bach a meicro lleol pe bai'n llwyddiannus yn y broses dendro.

Mae pedwar cyflenwr lleol sy'n gallu cyflenwi'r holl gynhyrchion a nodwyd yn y strwythur lotio. Awgrymodd un cyflenwr y gall ddod o hyd i ddewisiadau amgen sy'n seiliedig ar blanhigion a weithgynhyrchir yn y DU.
Mae pob un wedi cadarnhau y byddent yn gallu bodloni'r gofynion cyflenwi arfaethedig, ac mae sawl un wedi ymhelaethu ar y gallu i ddarparu cynhyrchion lluosog ar yr un pryd, cynhyrchion a fydd â gofynion gwahanol a reolir gan dymheredd a fyddai'n arbed allyriadau. Mae cyflenwyr lleol yn awyddus i hyrwyddo eu ffynonellau lleol a'u cymwysterau cynhyrchu, a'r effeithiau cadarnhaol ar leihau allyriadau a chefnogi swyddi lleol. Roedd y cyfanwerthwr o Gymru yn hyrwyddo blaenoriaethau o ran twf swyddi lleol a chefnogi mentrau Cymunedol. Nododd un cyflenwr lleol eu bod yn gallu cefnogi ymweliadau â'u cyfleusterau potelu yn Sir Fynwy.

Roedd pob un ohonynt yn cefnogi'r contract 5 mlynedd arfaethedig gan ei fod yn rhoi sicrwydd ac yn eu galluogi i adeiladu eu model busnes i gefnogi ein gofynion. Yn bennaf, roedd cefnogaeth i gynllun achredu allanol gyda dim ond un yn herio'r gost. Esboniodd un cyflenwr ei daith sero net a'i ddefnydd o ynni adnewyddu yn ei brosesau gweithgynhyrchu.

Ar gyfer y camau nesaf, mae digon o ddiddordeb a pharodrwydd i gyd-fynd â'r gofynion a gyda'r strwythurau lotio fel y cynigir. Mae mwy o gyfleoedd i fod yn fwy hygyrch i ficro a BBaChau. Bydd y deg lot dros y ddwy ardal ddaearyddol yn cael eu datblygu. Nid yw'r dyluniad prynu manyleb wedi'i gwblhau gan fod ymgynghoriad yn dal i fynd rhagddo a disgwylir adborth o'r mynegiannau o ddiddordeb.

https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=qf0CHwSJyimbAc6i&t=14883

*Gadawodd y Cynghorydd Sirol Tomos Davies am 5.59pm*
*Gadawodd y Cynghorydd Sirol Laura Wright am 6.05pm*
https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=qf0CHwSJyimbAc6i&t=14883

*County Councillor Tomos Davies left at 5.59pm*
*County Councillor Laura Wright left at 6.05pm*

**12. O'r Cynghorydd Sirol Tony Kear i'r Cynghorydd Sirol Angela Sandles, Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu**

*A all yr Aelod Cabinet egluro'r oriau agor llai yn Swyddfa Bost Brynbuga?*

Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu mai Swyddfa Bost Brynbuga, sy'n gweithredu o'r Ganolfan Gymunedol, yw'r cyntaf yn y DU i gael ei rheoli gan awdurdod lleol. I ddechrau, agorodd ar ddydd Llun, dydd Mercher, dydd Iau hwyr y nos a boreau Sadwrn. Er mwyn cefnogi'r postfeistr awdurdod lleol a'r oriau hyn, cafodd 2 aelod o staff eu recriwtio bob un ar gontractau 17 awr. Ym mis Chwefror 2021 ymddiswyddodd un aelod o staff, gan adael y postfeistr a chydweithiwr arall hyfforddedig i reoli'r gwasanaeth tan y cyfnod clo.

Pan ailddechreuodd y Gwasanaethau, gweithredwyd llai o oriau agor oherwydd cyfyngiadau staffio a dadansoddi data gweithredol. Yn ystod y cyfnod clo, cynhaliwyd adolygiad trylwyr o'r data gweithredol a ddatgelodd er mwyn cydbwyso'r refeniw a'r gwariant yr oedd ei angen i addasu'r oriau gweithredu. O ganlyniad, penderfynwyd rhoi'r gorau i weithrediadau ar ddydd Mercher oherwydd niferoedd ac incwm isel, a chau am 5:00pm ddydd Iau, gan ailfuddsoddi'r 2 awr ychwanegol i wasanaeth ehangach yr Hyb.

## MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

## Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Gorffennaf, 2024 at 2.00 pm

Cafodd yr oriau Iau estynedig, a fwriadwyd i gefnogi busnesau lleol gyda'u bancio, eu tanddefnyddio er gwaethaf ymdrechion hyrwyddo'r Cyngor.

Mandad yr awdurdod oedd talu costau staff drwy'r incwm a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Bost. Yn anffodus, nid oedd yr amcanestyniadau incwm a ddarparwyd ar adeg sefydlu'r gwasanaeth byth wedi cael eu gwireddu, felly roedd angen lleihau staffio gan 17 awr yr wythnos a thorri oriau agor gan 10 awr yr wythnos i sicrhau sefyllfa gyllidebol gadarn.

Mae agor dydd Sadwrn am bedair awr yn cael ei gynnal drwy gyllideb graidd yr Hyb. Mae agor dydd Llun a dydd Iau yn parhau er weithiau mae angen cau ar sail ad hoc amser cinio. Pe bai'n hyfyw'n ariannol, byddem yn sicr yn ystyried adfer agoriadau dydd Mercher.

Gwyddom fod preswylwyr yn gwerthfawrogi cael Swyddfa Bost, hyd yn oed ar oriau llai. Mae Cyngor Tref Brynbuga yn cyfrannu swm o £4000 y flwyddyn i'w redeg ac mae hyn yn ei helpu i aros yn hyfyw. Mae'r holl fesurau hyn yn hanfodol i gynnal hyfywedd Swyddfa Bost Brynbuga yn awr ac yn y dyfodol o dan y cyfyngiadau ariannol. Nid yw staff wedi derbyn unrhyw gwynion gan gwsmeriaid ac nid yw'r Cyngor Tref yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiadau gan drigolion.

*Cwestiwn atodol:*
*Mae'n debyg eich bod yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n digwydd yn Swyddfa Bost Rhaglan sy'n cau ac yn cael eu hisraddio'n dechnegol i swyddfa Leol. Mae niferoedd Brynbuga yn cynyddu pan fydd Swyddfa Bost Rhaglan ar gau. A oes posibilrwydd y gallem edrych ar ailagor ddydd Mercher yn seiliedig ar yr ystadegau sy'n dangos mwy o fasnach o bosibl yn dod yn ôl i Frynbuga o Raglan, a pharhau i weithio gyda Chyngor Tref Brynbuga i wneud hynny? Mae'n wasanaeth poblogaidd iawn, sy'n cael ei werthfawrogi gan bobl oedrannus ac mae pryderon bod yr oriau agor llai yn llwybr tuag at gau.*

Dywedodd yr Aelod Cabinet, pe bai nifer yr ymwelwyr yn cynyddu'n sylweddol, yna byddai hyfywedd oriau agor pellach yn cael ei ystyried gan ei fod yn wasanaeth gwerthfawr.

https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=6VzZtyonwQIfzFlr&t=15666

### 13. O'r Cynghorydd Sirol Jane Lucas i'r Cynghorydd Sirol Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd

*Could the cabinet member provide an update on the work taking place at St Thomas' roundabout in Monmouth?*

The Cabinet Member for Climate Change and the Environment confirmed that the work at St. Thomas's roundabout is complete.

*Supplementary Question:*
*It was a great shame that during the work, the hand carved kerbstones have been removed and replaced with constitute concrete. Have the kerbstones been saved to for use elsewhere? Also, in making the roundabout smaller, there is a very strange step system which is about to drop away within the soil that's holding up the Cenotaph in the middle. In the past there has been wonderful flower displays that our ground staff have taken great delight in and done an amazing amount of work looking after it. The residents would like to see that retained. Is it possible for a kerb to be nicely placed to hold the soil up where it's been cut away and reinstate the flower beds.*

The Cabinet Member described the work completed at St. Thomas's roundabout. As part of the active travel route into Monmouth from the Wonastow Road end from Rockfield there was a need to alter the track of vehicles around the roundabout, so the central reservation is now an oval rather than a round; only very recently completed, so the planting has not yet been done. Consideration is ongoing about the correct way to plant. It was confirmed that the kerbstones are not listed, only the Cenotaph.

https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=HXf2JkKJ6WFBjBIi&t=16040

## 14. Cwestiwn brys gan y Cynghorydd Sirol Lisa Dymock i'r Cynghorydd Sirol Paul Griffiths, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd

*A allai'r aelod cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n digwydd ar gylchfan Sant Thomas yn Nhrefynwy?*

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd fod y gwaith ar gylchfan Sant Thomas wedi'i gwblhau.

*Cwestiwn Atodol:*
*Roedd yn drueni mawr bod y cerrig palmant cerfiedig â llaw wedi cael eu tynnu yn ystod y gwaith a'u disodli â choncrid. A yw'r cerrig palmant wedi cael eu harbed i'w defnyddio mewn mannau eraill? Hefyd, wrth wneud y gylchfan yn llai, mae system stepiau rhyfedd iawn sydd ar fin disgyn i ffwrdd o fewn y pridd sy'n dal y Senotaff yn y canol. Yn y gorffennol bu arddangosfeydd blodau gwych y mae ein staff cadw tir wedi ymhyfrydu'n fawr ynddynt ac wedi gwneud llawer iawn o waith yn gofalu amdano. Hoffai'r trigolion weld hynny'n cael ei gadw. A yw'n bosibl i ymyl palmant fod mewn sefyllfa braf i ddal y pridd i fyny lle mae wedi'i dorri i ffwrdd ac adfer y gwelyau blodau?*

Disgrifiodd yr Aelod Cabinet y gwaith a gwblhawyd ar gylchfan Sant Thomas. Fel rhan o'r llwybr teithio llesol i Drefynwy o ben Wonastow Road, o Rockfield, roedd angen newid trac cerbydau o amgylch y gylchfan, felly mae'r llain ganolog bellach yn hirgrwn yn hytrach na chylch, ac ond yn ddiweddar iawn wedi'i gwblhau, felly nid yw'r plannu wedi'i wneud eto. Mae ystyriaeth yn parhau ynglŷn â'r ffordd gywir o blannu. Cadarnhawyd nad yw'r cerrig palmant wedi'u rhestru, dim ond y Senotaff.

https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=HXf2JkKJ6WFBjBIi&t=16040

to the assessed need from 11 to 7 pitches.

It is proposed, on that basis, to take forward only one of the three sites for inclusion in the Replacement Local Development Plan (RLDP); the site which has the most advantages and the least disadvantages, Bradbury Farm. That proposal has been published in the report to be considered at a Special meeting of the Place Scrutiny Committee on the 24th July 2024. At that meeting, the evidence base for this preferred site will be provided.

Following the Place Scrutiny Committee meeting, any points made and those raised by Councillor Dymock, will be taken into account in a report for a Special Cabinet meeting on the 21st August 2024. If there is Cabinet support for this proposal, it will be included in the RLDP

which, in October, Council will be asked to accept as the basis for public consultation throughout November and December.

The residents of Portskewett and Caldicot would have a further chance to comment on this proposal if it were included in that RLDP and was subject to that consultation at that time.

*Supplementary Question*
*Considering the proposed dual development for the RLDP and Gypsy and Traveller site provision, what plans are in place to enhance the local infrastructure, in particular, road safety. This road has reduced visibility on the blind bend, so access and egress will be challenging, noise levels in particular for those living in static accommodation and preserving the nearby area of SSSI (Site of Special Scientific Interest), the Neddern Brook Wetlands in Caldicot, which is only a few hundred metres away.*

The Cabinet Member agreed that the existing highway (Crick Rd) would not provide suitable access and egress to a Traveller site in that area. Given the process of a future planning application and following the RLDP, by the time the pitches are in place plans will be advanced to develop housing on the strategic site in Portskewett or Caldicot East. The planning for that development will have to include a safe walking and cycling route from the Gypsy and Traveller site through the residential site to local amenities in Caldicot.

https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=rafdaLabgazBtqkE&t=16287

**15. Cwestiwn brys gan y Cynghorydd Sirol Richard John i'r Cynghorydd Sirol Martyn Groucutt, Aelod Cabinet dros Addysg**

*A all yr Aelod Cabinet roi eglurhad os gwelwch yn dda ar y cynnig diweddar i sefydlu trydydd safle o fewn y pentrefan bach, er fy mod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd darparu llety digonol i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, rwy'n pryderu am grynodiad safleoedd lluosog mewn un ardal fach. Yn benodol, hoffwn ddeall y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwn a pham nad yw dull mwy gwasgaredig ar draws y sir gyfan, wedi'i ystyried?*

Croesawyd y cwestiwn gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Economi Gynaliadwy fel cyfle i rannu gyda'r Cyngor a'r gymuned ehangach sut rydym yn ymateb i'r angen a aseswyd am gaeau Sipsiwn a Theithwyr.

Ym mis Hydref, cychwynnodd y Cabinet ymgynghoriad ac arfarniad technegol o dri safle posibl i ddarparu 11 cae ar gyfer aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr.

Roedd yr Aelod Cabinet yn adolygu ymatebion yr ymgynghoriad a'r astudiaethau technegol wrth aros am benderfyniad y Pwyllgor Cynllunio ar gais yn ymwneud â safle yn Llancayo. Cafodd y penderfyniad hwnnw ei wneud ddydd Mawrth ac mae wedi arwain at ostyngiad i'r angen a aseswyd o 11 i 7 llain.

Ar y sail honno, cynigir bwrw ymlaen ag ond un o'r tri safle i'w gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN); y safle sydd â'r manteision mwyaf a'r anfanteision lleiaf, Bradbury Farm. Cyhoeddwyd y cynnig hwnnw yn yr adroddiad i'w ystyried mewn cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Lle ar 24 Gorffennaf 2024. Yn y cyfarfod hwnnw, bydd y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y safle hwn a ffefrir yn cael ei darparu.

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu Lle, bydd unrhyw bwyntiau a wneir a'r rhai a godwyd gan y Cynghorydd Dymock, yn cael eu hystyried mewn adroddiad ar gyfer cyfarfod arbennig o'r Cabinet ar 21 Awst 2024. Os oes cefnogaeth y Cabinet i'r cynnig hwn, bydd yn cael ei gynnwys

yn y CDLlN a gofynnir i'r Cyngor, ym mis Hydref, ei dderbyn fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus drwy gydol mis Tachwedd a mis Rhagfyr.

Byddai trigolion Porth Sgiwed a Chil-y-coed yn cael cyfle pellach i wneud sylwadau ar y cynnig hwn pe bai'n cael ei gynnwys yn y CDLlN hwnnw ac yn destun yr ymgynghoriad hwnnw bryd hynny.

*Cwestiwn Atodol:*
*O ystyried y datblygiad deuol arfaethedig ar gyfer darpariaeth safle CDLlN a Sipsiwn a Theithwyr, pa gynlluniau sydd ar waith i wella'r seilwaith lleol, yn benodol, diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r ffordd hon â gwelededd llai ar y tro ddall, felly bydd mynd i mewn ac allan yn heriol, a lefelau sŵn yn arbennig i'r rhai sy'n byw mewn llety sefydlog, a gwarchod yr ardal SoDdGA gyfagos, sef Gwlyptiroedd Nant Neddern yng Nghil-y-coed, sydd ond ychydig gannoedd o fetrau i ffwrdd.*

Cytunodd yr Aelod Cabinet na fyddai'r briffordd bresennol (Crick Road) yn darparu mynediad na ffordd allan addas i safle Teithwyr yn yr ardal honno. O ystyried y broses o gais cynllunio yn y dyfodol ac yn dilyn y CDLlN, erbyn i'r lleiniau fod ar waith, bydd cynlluniau yn cael eu datblygu i ddatblygu tai ar y safle strategol ym Mhorth Sgiwed neu Ddwyrain Cil-y-coed. Bydd yn rhaid i'r gwaith cynllunio ar gyfer y datblygiad hwnnw gynnwys llwybr cerdded a beicio diogel o'r safle Sipsiwn a Theithwyr drwy'r safle preswyl i amwynderau lleol yng Nghil-y-coed.

https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=rafdaLabgazBtqkE&t=16287

- .
- The Cabinet Member will attend People Scrutiny Committee.
- Drop-in sessions at each of the Hubs have been arranged.

*Supplementary Question:*
*What you're proposing is quite significant changes to school transport eligibility changing from transporting children their nearest or catchment school( for primary from 1.5 miles or above and for secondary from two miles). You are proposing to change those to two miles for primary and three miles for secondary so a significant number of families will be affected by the changes. Do you know how many pupils will be affected? And will the Council be writing specifically to those families to enable them to take part in the consultation?*

- The Cabinet Member confirmed that every family that currently receives school transport has been notified, also, where possible, future pupils if notified by nurseries.
- It was accepted that there will be a fairly wide impact in some areas of the county. If the proposals are accepted, it would bring us into line with nineteen of the 22 Welsh authorities. Numbers affected are not yet available.

https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=gIt1Br9_vYr_GyG_&t=14887

16. **Cyfarfod nesaf 19eg Medi 2024**

17. **Sefydlu Pwyllgor Taliadau (papur i ddilyn)**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Gorffennaf, 2024 at 2.00 pm**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau adroddiad i sefydlu Pwyllgor Taliadau i benderfynu ar y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Uwch Dîm Arwain y Cyngor sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a 7 Prif Swyddog.

**Ar ôl cael ei gyflwyno i'r bleidlais penderfynodd y Cyngor gytuno ar yr argymhelliad**

Bod y Cyngor hwnnw'n sefydlu Pwyllgor Taliadau

https://www.youtube.com/live/UhmH18Q9ego?si=jSbjY-JIV51eRqSE&t=16675

**The meeting ended at 6.48 pm**